**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

20 Mawrth 2025

Annwyl Delyth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 4 Mawrth, a ofynnodd am wybodaeth am berthynas Cymru â chenhedloedd Affrica.

Mae'r atebion i bob un o'ch cwestiynau wedi'u nodi, yn eu tro, yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Dymuniadau gorau

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A - Ymateb**

1. Mae gennym gefnogaeth Uchel Gomisiwn Prydain (BHC) yn y tair gwlad yn Affrica yr ydym yn gweithio ynddynt (Namibia, Lesotho ac Uganda). Rydym yn dibynnu ar y BHC i ddarparu sesiynau briffio diogelwch a gwleidyddol i ni, ac yn gweithio gyda'r BHC i gefnogi staff a chyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn unrhyw un o'n rhaglenni yn y wlad.

2. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ei 'Dull Affrica Newydd' fel rhan o feithrin cysylltiadau rhwng y DU ac Affrica.

3. Mae graddfa a nodau gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn Affrica yn wahanol iawn i'r hyn a gyflawnwyd gan Lywodraeth y DU. Nid yw ein blaenoriaethau yn gwrthdaro â rhai'r Deyrnas Unedig nac yn eu dyblygu.

4. Caiff y cysylltiadau rhwng y DU ac Affrica eu trafod yn y Pwyllgor Llywio Rhyngweinidogol.

5. Nid yw cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u datganoli, ac mae gan Lywodraeth y DU arbenigwyr (er enghraifft mewn hawliau dynol) a ddefnyddir yn y gwledydd lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phrosiectau. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo gwerthoedd Cymru o ran chwarae teg a chydraddoldeb drwy'r gwaith rydym yn ei wneud. Mae'r enghraifft fwyaf amlwg o'r gwaith hwn yn digwydd yn Uganda lle, yn dilyn pasio Deddf Gwrth-Gyfunrywioldeb 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu a chefnogi digwyddiadau sy'n trafod sut i sicrhau bod hawliau LGBTQI yn cael eu gwarchod, i'r graddau y bo modd, yn y gwaith y mae grwpiau ac unigolion yn ei wneud mewn partneriaeth â phobl Uganda.

6. Mae Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica wedi cael ei drafod gyda swyddogion Llywodraeth y DU ac mae Uchel Gomisiynau Prydain wedi darparu cymorth yn y gwledydd lle'r ydym yn gweithio. Bu ymgysylltu rheolaidd â swyddogion BHC yn Uganda i gefnogi Rhaglen Coed Mbale.